# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

# CAU HEWL O 3 YR 5 / 8 YR 11 o FAI 2025 ER MWYN DATHLU 80 MLYNEDD ERS DIWRNOD BUDDUGOLIAETH YN EWROP

*Dydd Iau'r 10fed o Ebrill 2025 yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau i gau hewl er mwyn dathlu 80 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop.*

Cynnwys:

Nodiadau i'ch cynorthwyo gyda'ch cais

Ffurflen Gais

Furflen Indemniad

## <u>Nodiadau i'ch cynorthwyo gyda'ch cais:</u>

Hoffai'r Cyngor ei wneud yn haws i bobl gynnal partïon stryd i ddathlu 80 mlynedd ers Diwrnod Buddigoliaeth yn Ewrop. Mae'r canllaw hwn yn darparu cyngor ynghlych sut i gynnal parti bach stryd yn eich cymuned / stryd leol.

Mae’n cynnwys ffurflen gais a ffurflen indemniad i’w cwblhau a’u hanfon yn ôl at Engineeringandtraffic@merthyr.gov.uk er mwyn i chi allu cychwyn trefnu eich parti stryd.

Hoffai’r cyngor gefnogi partïon stryd ond mae’n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cyflwyno unrhyw geisiadau ar fyrder a chyn dydd Iau’r 10fed o Ebrill 2025.

Os hoffech gynnal parti bach stryd i ddathlu Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop, defnyddiwch y ffurflen gais amgaeedig er mwyn rhoi gwybod i’r cyngor am y digwyddiad sy’n cael ei drefnu gennych (parti stryd) a gwneud cais i gau unrhyw hewlydd sydd eu hangen. Er mwyn cynnal parti stryd ar neu o fewn hewl mae’n rhaid gofyn am ganiatâd a derbyn cadarnhad gan y Cyngor er mwyn sicrhau eich bod chi’n gallu cau’r stryd i draffig yn gyfreithiol ac yn ddiogel.

Bydd y Cyngor yn penderfynu os ydy’ch hewl yn addas i’w chau.

**CEISIADAU NA FYDD YN CAEL EU DERBYN:**

Ni dderbynnir ceisiadau i gau priffyrdd dros dro. Rydym yn annog cau hewlydd llai a ffyrdd pengaead.

Rydym yn gallu, ac mi fyddwn yn gwrthod ceisiadau ar sail diogelwch.

Mae’n bosib y bydd unrhyw geisiadau a dderbyniwn wedi’r dyddiad cau hefyd yn cael eu gwrthod o ganlyniad i’r effaith posib ar y ffyrdd y bydd y gwasanaethau brys yn teithio ar eu hyd.

*Hyd y gellir, dylid cadw mynediad i’r strydoedd ar agor ar bob achlysur i gerbydau’r Gwasanaethau Brys, i breswylwyr allu mynd at eu cartrefi ac i fusnesau allu mynd at eu heiddo.*

**ARWYDDION / CONAU CAU FFYRDD:**

**Darperir y rhain gan y Cyngor.**

**Asesiadau risg**

Byddem yn eich annog i gwblhau asesiad risg fel trefnydd y digwyddiad gyda chyfrifoldeb am ddiogelwch y mynychwyr. Efallai yr hoffech feddwl am sut y gallwch leihau risgiau a threfnu bod cynllun gennych wrth gefn. Er enghraifft:

- beth i'w wneud petai dywydd eithafol (er enghraifft tywydd poeth, oer neu wlyb iawn)
- defnyddio platiau a chwpanau plastig y gellir eu hailddefnyddio yn hytrach na gwydr
- peryglon llithro, baglu a chwympo

**Trwyddedau Alcohol ac Adloniant**

**Am ragor o wybodaeth gweler: https://www.merthyr.gov.uk/business/licences-and-permits/entertainment-and-alcohol/alcohol-and-entertainment-licence/?lang=cy-GB&**

# Ffurflen Gais:

Enw…………………………………………………….

Cyfeiriad………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………………

Sefydliad a Math o Ddigwyddiad
…………………………………………………………………………
………………………………………………………………………………………………
……………

Rhif Ffôn yn Ystod y Dydd ………………………………………………..

Rhif Ffôn yn Ystod y Nos………………………………………………..

Disgrifiad o'r rhan o'r hewl hoffech ei chau

________________________________________________________________

________________________________________________________________

Ffordd Arall

________________________________________________________________

________________________________________________________________

Dyddiad__________________________

Amserau___________________________

**YMGYNGHORIAD (preswylwyr yr effeithir arnynt yn uniongyrchol o fewn yr ardal gau)**

Hoffai’r Cyngor sicrhau bod y mwyafrif o bobl yn hapus gyda'r digwyddiad sydd wedi'i gynllunio (parti stryd). Fodd bynnag, ni fydd pawb yn gallu neu’n dymuno cymryd rhan yn y digwyddiad, felly mae’n ddoeth gadael i bawb wybod yn union faint o’r gloch y bydd y parti’n dechrau ac yn gorffen e.e. rhwng 10am ac 8pm.

Y dull o ymgynghori a awgrymir yw anfon llythyr at y trigolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol yn eu hysbysu o fanylion llawn y digwyddiad (parti stryd) fel bod pawb yn cael yr holl wybodaeth. Dengys enghraifft o lythyr isod:

Ydych chi wedi cysylltu â phawb fydd yn cael eu heffeithio? Ydw/Nac ydw

A oedd unrhyw wrthwynebiadau i gau’r hewl? Oedd/Nac oedd

Arwyddwyd ……………………………………

Dyddiad…………………………………………….

**ENGHRAIFFT O LYTHYR YMGYNGHORI**

Eich Enw

Eich Cyfeiriad / Manylion Cyswllt

Annwyl Gymydog,

Parthed: Parti Stryd i ddathlu 80 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop ar ein stryd ni ar (Dyddiad)

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi (fy mod i / ein bod ni’n) trefnu cynnal parti ar ein stryd ni i ddathlu 80 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop ddydd Sul yr 11eg o Fai 2025. (Byddaf i / Byddwn ni’n) gwneud cais i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i roi caniatâd i ni gau ein hewl i draffig o 10am hyd 8pm.

Cawsom wybod gan y Cyngor bod yn rhaid cynnal mynediad ar bob achlysur i gerddwyr drwy gydol yr adeg bydd yr hewl ar gau i draffig, a hefyd bod yn rhaid sicrhau bod mynediad i gerbydau’r Gwasanaethu Brys ar gael ar bob achlysur. Cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, dylid darparu mynediad i breswylwyr i fynd â'u cerbydau i'w heiddo ac oddi yno ynghyd ag unrhyw ofynion mynediad penodol eraill a all fod yn angenrheidiol ar y diwrnod. Mae trefniadau’n cael eu gwneud i osod arwyddion cau ffyrdd a chonau i gau’r ffordd(ffyrdd) a rhoi gwybod i fodurwyr fod y ffordd ar gau ar gyfer ein parti stryd.

Nawr ein bod ni wedi rhoi gwybod i chi am y trefniadau arfaethedig, rydym yn gobeithio y byddwch yn ymuno â ni yn y parti, a fydd yn cael ei gynnal ar (rhowch

fanylion y parti yn y fan hon). Gyda'ch cefnogaeth rydym yn gobeithio bydd y parti stryd hwn yn ffordd wych o ddathlu 80 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth Ewrop.

Fodd bynnag, os oes unrhyw gwestiynau gennych neu unrhyw bryderon neu wrthwynebiadau i'r trefniadau, cysylltwch â mi os gwelwch yn dda (rhowch fanylion y parti yn y fan hon).

Cofion cynnes,

Trefnydd y Digwyddiad/ Eich Cymydog

Rhowch eich enw yn y fan hon

## AMODAU'R CANIATÂD A'R DULL GWEITHREDU

1. Rhaid cadw mynediad i gerddwyr i bob eiddo ar y stryd ar bob achlysur.

2. Rhaid cynnal mynediad **uniongyrchol** i bob un o gerbydau'r gwasanaethau brys ar bob achlysur. Rhaid bod unrhyw rwystr sy'n cael ei roi ar y stryd fod yn rhwystr a all gael ei symud ar unwaith.

3. Rhaid bod unrhyw addurn neu faneri sy'n cael eu hongian ar draws hewl, gael eu gosod mewn ffordd na fydd yn achosi unrhyw rwystr i unrhyw un o gerbydau'r gwasanaethau brys.

4. Ni chaniateir hongian unrhyw atodiadau ac eithrio baneri ac ati, oddi ar bolion goleuadau'r stryd, arwyddion traffig nac unrhyw ddodrefn stryd arall. Rhaid iddynt beidio â lleihau ansawdd y golau stryd a rhaid i unrhyw addurniadau fod yn hawdd eu datod ar gyfer gwasanaethau goleuadau stryd.

5. Ni chaniateir defnyddio polion neu offer i gynnal neu gario ceblau trydan uwchben er budd diogelwch y cyhoedd. Ni ddylid rhoi ffyn na pholion yn y llwybrau troed na'r ffordd gerbydau.

6. Ni chaniateir tanau na barbeciwiau o fewn terfynau'r hewl, sy'n cynnwys yr holl gerbytffyrdd, troedffyrdd, ymylon, mannau cadw canolog a chylchfannau.

7. Rhaid symud unrhyw fyrddau, trestlau, cadeiriau, rhwystrau ac ati oddi ar yr hewl yn syth wedi i'r digwyddiad ddod i ben a rhaid clirio'r holl sbwriel ac unrhyw lanast o'r ardal.

8. Bydd y Trefnydd yn gwerthfawrogi bod ystyriaeth ddyledus i'w rhoi i drigolion a darpariaethau i'w gwneud ar gyfer diogelwch a chysur yr henoed, plant methedig a phlant ifanc iawn. Rhaid cadw lefelau sŵn ac aflonyddwch mor isel â phosibl.

9. Bydd y Trefnydd yn indemnio'r Cyngor, yn erbyn anaf (gan gynnwys marwolaeth) i unrhyw berson neu golled neu ddifrod i unrhyw eiddo a all ddeillio'n uniongyrchol

o’r weithred, diffyg neu esgeulustod eich hun mewn cysylltiad â’r digwyddiad ac yn erbyn pob hawliad, galwad, achos, iawndal, costau, taliadau a threuliau o gwbl mewn perthynas â hynny neu mewn cysylltiad ag ef.

10. Rydym yn argymell eich bod yn prynu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus trydydd parti ar gyfer parti bach stryd breswyl am o leiaf ddeg miliwn o bunnoedd i dalu am bob posibilrwydd a all godi o gynnal y digwyddiad (parti stryd).

11. Bydd y Trefnydd yn darparu tystiolaeth i ddangos bod pawb yr effeithir arnynt gan gau’r stryd yn cytuno eu bod yn cefnogi'r digwyddiad ac yn fodlon ei fod yn mynd rhagddo.

## FFURFLEN INDEMNIAD

*Yr wyf i’n cytuno i amodau’r caniatâd a amlinellwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer caniatáu Digwyddiad ar yr hewl (anfonwyd copi ataf) a thrwy hyn gofynnaf am ganiatâd i gau hewl a chytunaf ymhellach i indemnio'r Cyngor yn erbyn unrhyw hawliadau am anaf personol neu ddifrod sy'n deillio o neu mewn cysylltiad â'r Digwyddiad Arbennig fel yr amlinellir isod. Rwy’n cadarnhau bod Asesiad Risg Diogelwch wedi’i gynnal.*

Enw’r Digwyddiad Arbennig..........................................................................................

Lleoliad………………………………………………………………….…………..

Dyddiad y Digwyddiad…………………………………………………………..…….

Amserau’r Digwyddiad………………………………………………………................

Enw’r Trefnydd……………………………………………………….…………

Arwyddwyd…………………………………….    Dyddiad……………………………..

Ydych chi wedi amgáu:

1) Eich ffurflen gais wedi ei chwblhau?
2) Y Ffurflen Indemniad?